SL(5)364 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (ac eithrio Rhan 2 – gweler isod) i'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

• Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

• Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

• Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

• Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

Nod y diwygiadau yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, a byddant yn mynd i'r afael â diffygion yn neddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n deillio o ymadael â'r UE.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n cywiro cyfeiriadau sydd wedi dyddio at gyfraith Ewrop a deddfwriaeth ddomestig cyn ymadawiad y DU â'r UE ac yn barod ar gyfer y broses hon. Mae hyn yn ofynnol oherwydd ni chaiff cyfeiriadau sydd wedi dyddio at ddeddfwriaeth o reidrwydd eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (wedi'i diweddaru), felly mae perygl na fyddai'r llyfr statud yn gweithredu'n effeithiol nac yn hygyrch ar ôl ymadawiad y DU â'r UE.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau uchod.